



Media Release
09 Medi 2021

'Y Stori Gyflawn' – Plattform newydd yn cefnogi Ffilmiau Cymreig

Mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) wedi lansio cyfres newydd o gyfweiliadau, podlediadau a rhagor, wedi'u dylunio i ddatlu ffilmiau Cymreig gyda chysylltiadau Cymreig.

Y cyntaf i ymddangos ydy cyfweiliadau gyda doniau y tu ôl i'r ffilmiau newydd *Censor* a *The Toll*. Mae'r [Stori Gyflawn](#), sydd yn rhan o llyn [Gwnaethpwyd yng Nghymru](#) Canolfan Ffilm Cymru, yn gweithio mewn cydweithrediad gyda gwneuthurwyr a dosbarthwyr ffilmiau i dynnu sylw at y straeon y tu ôl i'r sgrin wrth iddyn nhw gyrraedd gwyliau a sinemau .

Wrth i leoliadau annibynnol barhau i adfer o'r pandemig COVID-19, y nod ydy hybu proffil ffilmiau Cymreig ac annog cynulleidfaoedd i ddechreio i'r sinema.

Dywedodd Hana Lewis, Rheolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru:

"Credwn y dylai ffilmiau Cymreig gael eu cydnabod yn fyd-eang a'r lle gorau i'w gweld ydy yn ein sinemau neu wyliau lleol. Rydym yn edrych ar beth mae 'Cymreictod' yn ei olygu i gynulleidfaoedd drwy edrych y tu ôl i'r straeon y tu ôl i'r sgrin, o brofiadau rhaglenwyr sinema, i Gyfarwyddwraigedd a thu hwnt. Mae'n hanfodol bod ffilmiau annibynnol gyda chysylltiadau Cymreig yn weledol, i wneud y mwyaf o fuddsoddiad i'r sector sgrin, i sicrhau bod lleisiau cudd yn cael eu clywed a hefyd datblygu canfyddiad rhyngwladol o Gymru'.

Mae'r Stori Gyflawn hefyd yn anelu at gefnogi ac ysbrydoli talent Cymreig, hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru, helpu i gau'r bwlch sgiliau nid yn unig mewn cynhyrchu, mewn marchnata ffilmiau, gohebiaeth, rhaglennu a gwerthiant – sydd yr un mor hanfodol i roi pob cyfle i ffilmiau Cymreig lwyddo

Fel y mae Cyfarwyddwr *Censor*, Prano Bailey Bond, a anwyd yn Aberystwyth, yn esbonio:

"Bu'r gefnogaeth a dderbyniais o Gymru wrth wneud a rhyddhau fy ffilm gyntaf, gan gyrff, sinemau a chynulleidfaoedd, yn enfawr ac yn hanfodol. Mae'n gyfnod annhygoel o gyffrous i grewyr Cymreig ac mae'n wych bod Canolfan Ffilm Cymru yn rhoi'r sylw inni. Gobeithio y bydd yn amlygu ymhellach y potensial creadigol sydd yn bodoli yn y wlad ac yn rhoi hyd yn oed rhagor i gynulleidfaoedd yng Nghymru i'w fwynhau ac i ymfalchïo ynddo."

Dywedodd awdur sgrin *The Toll*, Matt Redd o Hwlfordd:

"Mae Cymru yn gyflym yn datblygu i fod yn ganolfan byd enwog ar gyfer cynhyrchu ffilm a theledu, ond fel gwneuthurwr ffilm a anwyd ac sydd yn byw yng Nghymru, rwyf yn fwyaf cyffrous am y cyfle i adrodd straeon Cymreig sydd yn benodol i fywyd Cymru. Mae Gwnaethpwyd yng Nghymru yn cynnig plattform gwych i straeon Cymru gysylltu gyda chynulleidfaoedd lleol, gan adeiladu momentwm yn nhaith ffilm i gynulleidfaoedd ar draws y byd."

Dywedodd Ben Luxford, Pennaeth Cynulleidfaoedd DU yn BFI:

*"Fe fydd Y Stori Gyflawn Canolfan Ffilm Cymru yn cynnig darlun gwych i gynulleidfaoedd o ffilmiau a gwneuthurwyr ffilmiau Cymreig. Diolch i chwaraewyr y Loteri Cenedlaethol, mae'r BFI yn cefnogi y gyfres gyfan a hefyd yn helpu i gyllido gwneud *Censor* a *The Toll*."*

Fe fydd arddangoswyr yn gallu cael mynediad i asedau a grerwyd drwy Y Stori Gyflawn i gychwyn sgyrsiau gyda'u cynulleidfaoedd am ffilmiau Cymreig a chreu disgwyliad am ffilmiau newydd. Fel

rhan o'r rhaglen Gwnaethpwyd yng Nghymru, mae lluo o weithgareddau eraill drwy gydol y flwyddyn yn cynnwys rhagddangosiadau ar gyfer rhaglenwyr ffilm i fod yng [nghatalog ffilmiau FHW](#) sydd â dros 100 o ffilmiau a ffilmiau byr gyda chysylltiadau Cymreig.

Mae Gwnaethpwyd yng Nghymru yn bodoli diolch i gyllid y Loteri Cenedlaethol gan y Sefydliad Ffilmiau Prydeinig (BFI) drwy ei Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Mae Canolfan Ffilm Cymru yn datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau annibynnol Prydeinig a rhyngwladol drwy gydol y flwyddyn drwy Chapter fel Corff Arweiniol Canolfan Ffilm.

Mae'r Loteri Cenedlaethol yn codi £36 miliwn bob wythnos i achosion da yn y DU.

Asedau y Stori Gyflawn

[Censor](#)

Mae Fedor Tot yn holi'r Cyfarwyddwr Prano Bailey-Bond, a anwyd yn Aberystwyth a sensor ffilm o Fwrdd Prydeinig Dosbarthu Ffilmiau (BBFC). Maen nhw'n trafod ei ffilm arswyd *Censor* a ryddhawyd yn y DU ar Awst 20. [Darllenwch y cyfweiliad yma](#) a pheidiwch â cholli'r ffilm yn Chapter, Cellb, Pontio Bangor a Chanolfan Gelfyddydau Aberystwyth, gyda rhagor o leoliadau i'w cyhoeddi.

[The Toll & Showdown](#)

Fe fu Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru Canolfan Ffilm Cymru, Radha Patel yn siarad hefyd gyda'r awdur sgrin Matt Redd a'r Cyfarwyddwr Ryan Hooper. Eu ffilm gyffro-gomic dywyll – The Toll, am weithredwr tollborth unig gyda gorffennol sydd yn gyflym ddal i fyny gydag ef, a ryddhawyd ar Awst 27 yn y DU. Mae Lewis Carter a Kristian Kane a chyd-gyfarwyddodd Showdown (a ysgrifenyddwyd gan Carter) ac a ddangosir ochr yn ochr gyda The Toll mewn sinemau dethol, yn ymuno gyda nhw. Ffilm fer ydy Showdown am fachgen ifanc awtistig sydd wrth ei fodd gyda ffilmiau cowbois sydd yn wynebu gwrthdaro dros enaid ei bentref, y siop gornel leol.

[Gwrandewch ar y podlediad yma](#) a pheidiwch â cholli y ffilm yn Kinokulture, Theatr Gwaun, Monmouth Savoy, Pavilions Teignmouth, Sinema Pontio Chalmers Filmhouse Arbroath Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth, Everyman a rhagor o safleoedd i'w cyhoeddi.

Gall cynulleidfaoedd ddilyn newyddion diweddaraf Gwnaethpwyd yng Nghymru ar [wefan FHW](#) neu drwy via [@filmhubwales](#) ar Facebook, Twitter ac Instagram.

DIWEDD

Ar gyfer delweddau copi'wch a phasti'wch y ddolen ganlynol ar eich porwr :

https://drive.google.com/drive/folders/1nfw_ZmDIKMn3rkimfW3aMJs5XaFtMMnO?usp=sharing

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

- Radha Patel, Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru ar radha@filmhubwales.org
- Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 lisa@filmhubwales.org
- Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 hana@filmhubwales.org

Am Ganolfan Ffilm Cymru

Nod Canolfan Ffilm Cymru ydy cyflwyno rhagor o ffilmiau, i ragor o bobl, mewn rhagor o leoedd o gwmpas Cymru. Yn rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI a gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FHW yn rheolaidd yn datblygu dulliau arloesol i bobl fynd i'r sinema gyda'i leoliadau aelod annibynnol.

Mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) yn un o wyth o 'ganolfannau' DU gyfan sydd yn rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, a Chapter wedi'i benodi yn Gorff Arweiniol Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru. Ein nod ydy datblygu'r sector arddangos drwy ymchwil, hyfforddiant a chymorth prosiect datblygu cynulleidfa. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013, rydym wedi cefnogi dros 225 o brosiectau sinema cyffrous gan gyrraedd dros 480,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym hefyd yn falch o arwain ar strategaeth [sinema cynhwysol](#) ar ran FAN BFI.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#), [Instagram](#)

Am Cymru Greadigol

Yn asiantaeth mewrol Llywodraeth Cymru, mae Cymru Greadigol wedi ymrwmo i ddatblygu'r sector ffilm a theledu yng Nghymru gan ddarparu cymorth drwy eu cyllido, datblygu sgiliau a thalent ar gyfer cynrychiadau buddsoddi mewrol a chartref. Ein cenhadaeth ydy gyrru twf ar draws y diwydiannau creadigol, adeiladu ar lwyddiant sydd eisoes yn bodoli a gosod Cymru fel un o'r lleoedd gorau i fusnesau creadigol ffynnu.

[Gwefan](#), [Twitter](#)

Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfa oedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfa oedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan rweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

BFI FAN [Gwefan](#)

Am BFI

Rydym yn elusen diwylliannol, dosbarthydd y Loteri Cenedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy

Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU

- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol.

Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.

Am Chapter

Chapter ydy un o ganolfannau celfyddydau mwyaf, a mwyaf deinamig Ewrop gyda sinemau, theatrau, gofod arddangos, stiwdios a chaffi, bariau arobryn a dros 60 gofod gweithio diwylliannol a mwy.

Mae gan Chapter enw da rhyngwladol am ragoriaeth, arloesi a chydweithredu. Mae'n cynnig rhaglen newidiol barhaus o ffilmiau ac arddangosfeydd gorau o Gymru ac o amgylch y byd.

[Website](#), [Facebook](#), [Twitter](#)